# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 28 Mehefin 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau
5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

## Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

### Allgáu Cymdeithasol yn Ynys Môn

**C10 Peter Rogers:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar allgáu cymdeithasol yn Ynys Môn? (OAQ12258)

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Mae allgáu cymdeithasol yn effeithio ar bob cymuned yng Nghymru, ond rwyf yn pryderu bod ardaloedd penodol ar Ynys Môn yn dioddef lefelau eithriadol o dlodi ac amddifadedd. Mae yn Ynys Môn chwe ward etholiadol sydd ymysg y 100 o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru fel a nodir gan fynegrif amddifadedd lluosog Cymru.

Ar 18 Mehefin, cyhoeddais y cymunedau a fyddai'n cael eu cynnwys yn rhaglen arloesol y Cynulliad, Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Bwriedir y rhaglen hon i fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru ac ymdrecha i bontio'r bwlch rhwng y cymunedau hyn a'r rhai mwyaf cefnog.

Dewiswyd y chwe ward yn Ynys Môn i'w cynnwys yn y rhaglen ac, felly, gallant fanteisio ar arian Rhoi Cymunedau'n Gyntaf.

### Trwyddedu Tai ar Rent Preifat

**C11 Geraint Davies:** A oes gan y Gweinidog gynlluniau i drwyddedu tai ar rent preifat yng Nghymru? (OAQ12188)

**Edwina Hart:** Dywed ein papur ymgynghori 'Cartrefi Gwell i Bobl Cymru' yn glir fod y Cynulliad wedi ymrwymo i gyflwyno trwyddedau ar gyfer tai amlbreswyliaeth. Byddwn hefyd yn ymgynghori ynghylch cynigion ar gyfer trwyddedu dethol ymysg eiddo eraill ar rent preifat pryd bynnag y bo hynny'n briodol.

### Ansawdd Morter mewn Cartrefi sydd Newydd eu Hadeiladu

**C12 Alun Cairns:** Pa gynrychiolaeth y mae'r Gweinidog wedi'i gael gan feddianwyr cartrefi sydd newydd eu hadeiladu yng Nghymru yn mynegi pryder ynghylch ansawdd y morter? (OAQ12239)

**Edwina Hart:** Nid wyf fi wedi derbyn unrhyw sylwadau uniongyrchol. Serch hynny, bu swyddogion y Gyfarwyddiaeth Dai, ers cryn amser, yn gohebu â phreswylwyr nifer o ddatblygiadau tai ynghylch morter meddal.

Er nad yw'r broblem hon yn gyfrifoldeb uniongyrchol i'r Cynulliad, mae'r swyddogion, drwy Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru, wedi mynd ar drywydd pryderon preswylwyr gydag Adran

yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau, yr Adran Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau erbyn hyn, yn fwyaf diweddar mewn cyfarfod rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Gweinidog dros Adeiladu ar 13 Mawrth.

Mae'r Adran Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau yn awr yn cydnabod y broblem ac yn bwrw ymlaen â'r mater hwn gyda'r Cyngor Adeiladu Tai Cenedlaethol, cyngor sy'n darparu gwarantau ar gyfer cartrefi newydd.

Mae rhagor o wybodaeth am hyn i'w weld ym mhapur (LGH-09-01), papur y bu i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ei ystyried ar 20 Mehefin.

### Addasiadau Tai ar gyfer Plant Anabl

**C13 Geraint Davies:** Pa gymorth sydd ar gael i rieni plant anabl ar gyfer addasiadau angenrheidiol i'w tai? (OAQ12179) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Yr Ymchwiliad i Lwfansau Cynghorwyr

**C14 Jonathan Morgan:** Pryd y disgwylir i'r ymchwiliad annibynnol i lwfansau cynghorwyr adrodd yn ôl i'r Gweinidog? (OAQ12272)

**Edwina Hart:** Rwy'n disgwyl cael yr adroddiad terfynol yn fuan.

### Safonau Moesegol Llywodraeth Leol yng Nghymru

**C15 Richard Edwards:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod gan y cyhoedd hyder yn safonau moesegol llywodraeth leol yng Nghymru? (OAQ12256) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Gwella Safon Tai ar Rent Preifat

**C16 Janet Davies:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella safon tai ar rent preifat a gynigir gan landlordiaid yng Nghymru? (OAQ12186) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Cymorth Trethi Busnes (Clwy'r Traed a'r Genau)

**C17 Ieuan Wyn Jones:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i gynnig rhagor o gymorth trethi busnes i ardaloedd yr effeithiodd argyfwng clwy'r traed a'r genau arnynt yng Nghymru? (OAQ12187) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Trosglwyddo Pwerau ar Reoliadau Adeiladu

**C18 Jocelyn Davies:** A yw'r Gweinidog wedi trafod gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru yr opsiynau ar gyfer trosglwyddo pwerau'n ymwneud â rheoliadau adeiladu i'r Cynulliad Cenedlaethol? (OAQ12181) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Adolygu Lwfansau Cynghorwyr

**C19 Rhodri Glyn Thomas:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i adolygu lwfansau cynghorwyr awdurdodau lleol yng Nghymru? (OAQ12180) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Trafodaethau â Chwmnïau Adeiladu Tai

**C20 Alun Cairns:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â chwmnïau adeiladu tai yng Nghymru i leddfu unrhyw bryder gan y cyhoedd ynglŷn ag ansawdd tai? (OAQ12238)

**Edwina Hart:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau uniongyrchol, er fy mod yn bwriadu gwneud hynny ar ôl trafod y mater hwn yn y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a gynhaliwyd yn ddiweddar ar 20 Mehefin.

Mae swyddogion y Gyfarwyddiaeth Dai wedi bod yn ymwybodol, ers cryn amser, o bryderon y cyhoedd am ansawdd adeiladau.

Er nad y Cynulliad sy'n gyfrifol yn uniongyrchol am y broblem hon, mae'r swyddogion, drwy Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru, wedi mynd ar drywydd pryderon preswylwyr gydag Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau, yr Adran Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau erbyn hyn, a'r Cyngor Adeiladu Tai Cenedlaethol, sef y corff sy'n cynrychioli'r diwydiant.

O ganlyniad i'n cysylltiad, mae'r Cyngor Adeiladu Tai Cenedlaethol yn cydnabod yr angen i newid rhai o'i ymarferion gweithio a'i drefniadau rheoli ansawdd. Rydym yn dal i wylio'r sefyllfa.

Mae rhagor o wybodaeth i'w chael ym mhapur (LGH-09-01), papur y bu i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ei ystyried ar 20 Mehefin.

### Datrys Tlodi mewn Cymunedau Trefol yng Nghanol De Cymru

**C21 Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y mesurau sydd mewn grym i geisio datrys tlodi mewn cymunedau trefol yng Nghanol De Cymru? (OAQ12205) [W] ***Tynnwyd yn ôl.***

### Cynghorau Cymuned

**C22 Brian Gibbons:** Faint o gynghorau cymuned sydd wedi'u sefydlu ac yna'u cau yng Nghymru rhwng 1999 a 2001? (OAQ12254) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Ymgynghori ar Newid y Ffordd y Caiff Gwasanaethau Cyhoeddus eu Darparu

**C23 Brian Hancock:** Pa ganllawiau sydd wedi'u rhoi i awdurdodau lleol ynglŷn ag ymgynghori â staff a'u cynrychiolwyr yn dilyn cynigion i newid y ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu? (OAQ12206) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Adolygu System Bandiau y Dreth Cyngor

**C24 Jocelyn Davies:** A yw'r Gweinidog yn bwriadu adolygu system bandiau y dreth cyngor? (OAQ12190) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref

**C25 Karen Sinclair:** Pa fesurau sydd wedi'u sefydlu i alluogi'r Gweinidog i adolygu hynt y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref? (OAQ12194)

**Edwina Hart:** Mae'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref i'w weld yn llwyddiant ysgubol; ac mae 15,000 o geisiadau wedi dod i lawr. O'i herwydd, rhaid sicrhau bod y cynllun a nawdd y Cynulliad yn cael eu reoli'n ddigonol ac yn effeithlon.

Mae'r swyddogion yn y Gyfarwyddiaeth Dai yn cynnal perthynas waith agos â rheolwr y cynllun ac, yn y dyddiau cynnar hyn, maent yn cynnal cyfarfodydd monitro rheolaidd. Mae'n ofynnol i reolwr y cynllun hefyd baratoi adroddiad cynnydd chwarterol i'r Cynulliad, adroddiad sy'n delio â phob agwedd ar y cynllun.

Er mwyn sicrhau bod y cynllun a rheolwr y cynllun yn cyrraedd y targedau a'r amcanion byddwn ni, tuag at ddiwedd y flwyddyn, yn gosod contract archwilio er mwyn cynnal archwiliad annibynnol ar berfformiad y flwyddyn gyntaf.

**Cynllun Gofal a Thrwsio**

**C26 Phil Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cyllid sydd ar gael ar gyfer y cynllun gofal a thrwsio yng Nghymru? (OAQ12192) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Meiri wedi'u Hethol yn Uniongyrchol**

**C27 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog symbylu refferendwm ar y mater o feiri wedi'u hethol yn uniongyrchol yng Nghymru? (OAQ12276) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Trafodaethau ar Drosglwyddo Stoc**

**C28 Lynne Neagle:** Pa drafodaethau a fu rhwng y Gweinidog a Gweinidog dros Dai a Chynllunio newydd y DU ynghylch trosglwyddo stoc? (OAQ12209)

**Edwina Hart:** Dim. Nid oes gan y Gweinidog dros Dai a Chynllunio y DU unrhyw gyfrifoldeb dros drosglwyddo stoc yng Nghymru. Mater i'r Cynulliad ac, yn y pen draw, i denantiaid ein tai cyngor yng Nghymru ei ystyried yw hwn.

**Rhoi Rhoi Cymunedau'n Gyntaf**

**C29 Lynne Neagle:** Yn dilyn ei hateb i OAQ11676, a wnaiff y Gweinidog roi'r newyddion diweddaraf ynghylch gweithredu'r rhaglen Rhoi Rhoi Cymunedau'n Gyntaf? (OAQ12207)

**Edwina Hart:** Cyhoeddais y cymunedau i'w cynnwys yn y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf ar 18 Mehefin ac rwyf wedi ysgrifennu at yr holl awdurdodau lleol yn cadarnhau'r ardaloedd sydd yn gymwys i fanteisio ar y nawdd. Yn awr, mae fy swyddogion yn gwahodd awdurdodau lleol a'u partneriaid i geisio am nawdd Rhoi Cymunedau'n Gyntaf ar gyfer amrywiol weithgareddau fel rhan o'r gwaith paratoi. Mae'r canllawiau'r rhaglen wrthi'n cael eu llunio. Bwriedir eu cyhoeddi ym mis Medi.

**Mentrau Cymunedol (Corus)**

**C30 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar fentrau cymunedol a gyflwynwyd yn benodol ar gyfer y cymunedau hynny yr effeithiwyd arnynt gan benderfyniad Corus? (OAQ12274)

**Edwina Hart:** Mae gwaith yn mynd rhagddo i baratoi fframwaith adfywio rhanbarthol a dwy raglen adfywio ar gyfer Blaenau Gwent a Chasnewydd. Bydd y gwaith hwn yn helpu i ganfod a blaenoriaethu prosiectau adfywio, gan gynnwys cynlluniau cymunedol, a gaiff eu gweithredu mewn partneriaeth gyda'r awdurdodau lleol ac Awdurdod Datblygu Cymru. Bydd y gwaith wedi'i gwblhau i raddau helaeth erbyn mis Hydref.

Yn ogystal, rwyf wedi cynnwys tair ward yng Nglyn Ebwy yn y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf i ategu'r dull gweithredu strategol hwn tuag at adfywio. Er bod yr ardaloedd hyn y tu allan i'r 100 ward fwyaf difreintiedig yng Nghymru, fel y'u diffinnir ym mynegrif amddifadedd lluosog Cymru, penderfynais dderbyn yr achos a gyflwynwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yng ngoleuni penderfyniad Corus.

Bydd y rhaglenni hyn yn adeiladu ar y cynlluniau cyflogaeth a hyfforddiant sydd eisoes yn mynd rhagddynt.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

### Gwella Cysylltiadau Rheilffordd Rhwng y De a'r Gogledd

**C7 Janet Ryder:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau gwell cysylltiadau rheilffordd rhwng y de a'r gogledd? (OAQ12235)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex):** Rwyf wedi cwrdd â'r awdurdod rheilffordd strategol sawl tro ac wedi tanlinellu ein hymrwymiad i wella'r gwasanaethau rheilffordd rhwng y de a'r gogledd.

Byddaf yn cwrdd â chyfarwyddwr gweithredol yr awdurdod rheilffordd strategol, Mr Chris Austin, ar 5 Gorffennaf i drafod masnachfraint Cymru a'r Gororau a byddaf yn pwysleisio wrtho ef pa mor bwysig yw ystyried y gwasanaethau rhwng y de a'r gogledd yn y negodiadau ar gyfer y fasnachfraint newydd.

### Monitro Effaith Jet-sgis

**C8 Ieuan Wyn Jones:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i fonitro effaith jet-sgis ar amgylchedd y môr yng Nghymru? (OAQ12232)

**Sue Essex:** Mater anffurfiol yw jet-sgïo, a gellir ei wneud ar ddyfroedd arfordirol addas cyn belled ag y cedwir at yr is-ddeddfau lleol, cyfyngiadau cyflymder, parthau, lansiadau a pholisïau eraill. Mater i awdurdodau lleol, awdurdodau harbwr a chyrff megis Asiantaeth yr Arfordir a Gwylwyr y Glannau, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub a'r heddlu yw monitro effaith cerbydau o'r fath o safbwynt unrhyw ddigwyddiadau a damweiniau yr adroddir amdanynt.

### Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (Adolygu Rheolaeth)

**C9 Gareth Jones:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i adolygu'r modd y rheolir safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig yng Nghymru? (OAQ12245)

**Sue Essex:** Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, a'r cynigion am ganllawiau ariannol newydd ar gyfer cytundebau rheoli ar safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig, gyda'i gilydd, yn sefydlu fframwaith newydd ar gyfer rheoli safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig yng Nghymru. Bydd y swyddogion, ar y cyd â Chyngor Cefn Gwlad Cymru, yn cadw golwg ar y broses weithredu.

### Cysylltiadau Trafnidiaeth Rhwng y Gogledd a'r De

**C10 Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sefyllfa bresennol y cysylltiadau trafnidiaeth rhwng y gogledd a'r de? (OAQ12233)

**Sue Essex:** Cynhaliwyd cynlluniau gwella dethol ar y prif ffyrdd sy'n cysylltu gogledd a de Cymru—yr A470 a'r A483—yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Buom yn ystyried a ddylid rhoi blaenoriaeth ychwanegol ar y cysylltiadau ffyrdd hyn, ar sail yr amgylchedd a'r traffig.

Caiff blaen-raglen cefnffyrdd y Cynulliad ei llunio ar ôl cyhoeddi'r fframwaith trafnidiaeth a rhoddir ystyriaeth i ganlyniadau astudiaeth Babtie 2000 wrth wneud penderfyniadau ar y gwelliannau i'r cysylltiadau rhwng y gogledd a'r de.

Ar hyn o bryd, mae'r Cynulliad yn darparu nawdd ar gyfer gwasanaeth trên dwy-ffordd ychwanegol rhwng y gogledd a'r de drwy Wrecsam.

## Polisïau ynglŷn â Defnyddio Jet-sgis

**C11 Ieuan Wyn Jones:** Pa bolisïau sydd gan y Gweinidog ynglŷn â defnyddio jet-sgis oddi ar arfordir gogledd Cymru? (OAQ12264)

**Sue Essex:** Mae rheoli cerbydau dŵr personol oddi ar arfordir Cymru yn fater i'r awdurdodau lleol, yn ei hanfod, drwy ddefnyddio is-ddeddfau a pholisïau i weithio gyda'r rheini sy'n ymwneud â chyflenwi a defnyddio'r cerbyd, ac i orfodi diogelwch morol o safon uchel.

Mae'r adolygiad o bwerau is-ddeddfau arfordirol a gynhelir gan y Llywodraeth yn disgrifio nifer o argymhellion i wella effeithiolrwydd dulliau awdurdodau lleol o lunio a gorfodi is-ddeddfau yng Nghymru a Lloegr. Gobeithiaf y gall y Cynulliad weithio gyda'n partneriaid yn y Llywodraeth a sectorau eraill er mwyn ystyried sut y gellid gweithredu argymhellion yr adroddiad orau.

## Gwarchod Bioamrywiaeth mewn Ardaloedd Gwledig

**C12 Elin Jones:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau y caiff bioamrywiaeth ei warchod mewn ardaloedd gwledig? (OAQ12246)

**Sue Essex:** Mae amrywiaeth mawr o fesurau mewn grym i hyrwyddo amddiffyn a gwarchod bioamrywiaeth ar draws Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys dynodi safleoedd gwarchodaeth arbennig a hybu ffyrdd priodol o'u rheoli, cefnogi ymarferion rheoli tir sy'n gydnaws â gwarchod bioamrywiaeth, megis Tir Gofal a'r cynllun ffermio organig (Cymru), a'r canllawiau cynllunio drafft diwygiedig. Yn ogystal, mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn cefnogi amrywiaeth mawr o gynlluniau bioamrywiaeth drwy ei raglen cymorth grant, ar lefel arfaethedig o dros £850,000 yn 2001-02.

## 'Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 8: Ynni Adnewyddadwy'

**C13 Mick Bates:** Pa ddyddiad y disgwylir cwblhau'r adolygiad o 'Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 8: Ynni Adnewyddadwy'? (OAQ12196)

**Sue Essex:** Disgrifiwyd y cefndir i'r adolygiad o 'Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 8: Ynni Adnewyddadwy' yn OAQ9259 ar 1 Chwefror 2001. Mae'r grŵp technegol ymgynghorol yn bwrw ymlaen yn dda â'i waith, a disgwyliaf i Nodyn Cyngor Technegol diwygiedig gael ei ryddhau, i ymgynghori arno, erbyn tua diwedd 2001.

Ochr yn ochr â hyn, mae 'Polisi Cynllunio Cymru' yn cael ei ailddrafftio er mwyn derbyn nifer o faterion y'u trafodwyd eisoes gan y grwp technegol ymgynghorol ac er mwyn adlewyrchu'r atebion i'r broses ymgynghori. Cyhoeddir 'Polisi Cynllunio Cymru' ddechrau 2002.

## Rhwydwaith y Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol

**C14 Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfarfod diweddaraf rhwydwaith y fframwaith cynllunio gofodol cenedlaethol? (OAQ12174)

**Sue Essex:** Cynhaliwyd cyfarfod agoriadol llwyddiannus iawn o'r rhwydwaith cynllunio gofodol yn Arena Genedlaethol Caerdydd ar 20 Mehefin. Mae'r rhwydwaith yn cynnwys amrywiaeth mawr o sefydliadau partneriaethol a wahoddwyd i weithio gyda'r Cynulliad i lunio ei fframwaith cynllunio gofodol cenedlaethol. Yn y cyfarfod cyntaf, cafwyd cyflwyniadau gan ymchwilwyr a swyddogion ar ffyrdd posibl ymlaen. Yna bu i'r cynrychiolwyr, yn eu plith nifer o awdurdodau cynllunio lleol, gyfranogi mewn trafodaethau a gweithdai i ddynodi materion y gallai'r fframwaith roi sylw iddynt. Gwahoddwyd aelodau'r rhwydwaith i gyfrannu safbwyntiau a syniadau yn rheolaidd, ond disgwyliaf hefyd gynnal nifer o gyfarfodydd pellach o'r rhwydwaith ar adegau allweddol wrth baratoi'r fframwaith, gan gynnwys mewn lleoliadau mewn rhannau eraill o Gymru.

**Diogelwch ar y Ffyrdd yng Ngorllewin Cymru a'r Canolbarth**

**C15 Nick Bourne:** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i wella diogelwch ar y ffyrdd yng ngorllewin Cymru a'r Canolbarth? (OAQ12223)

**Sue Essex:** Mae gwella diogelwch y ffyrdd yn un o fy mlaenoriaethau ac rwyf wedi neilltuo arian ychwanegol yn uniongyrchol i'r awdurdodau lleol i'w helpu i ymdrin â diogelwch ar y ffyrdd yn eu hardaloedd eu hunain. Eleni (o gyfanswm o £3.038 miliwn) bydd Sir Gaerfyrddin yn derbyn £225,000, bydd Powys yn derbyn £137,000, bydd Sir Benfro yn derbyn £119,000 a bydd Ceredigion yn derbyn £89,000. Y llynedd (o gyfanswm o £3.662 miliwn) derbyniodd yr un awdurdodau £262,000, £245,000, £165,000 a £119,000, yn y drefn honno.

Ar y rhwydwaith cefnffyrdd, neilltuwyd £1.5 miliwn y flwyddyn ar gyfer cynlluniau diogelwch lleol ac rydym wrthi'n ystyried y dyraniad nawdd ar gyfer cynlluniau penodol yng nghanolbarth a gorllewin Cymru.

**Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (Cyflwr)**

**C16 Cynog Dafis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyflwr safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig yng Nghymru? (OAQ12224)

**Sue Essex:** Adroddir data ar gyflwr safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig sydd hefyd yn warchodfeydd natur cenedlaethol yng nghyhoeddiad Cyngor Cefn Gwlad Cymru/y Comisiwn Coedwigaeth, 'Amgylchedd Iach i Gymru'. Dengys y data hwn lle'r oedd yr holl nodweddion mewn cyflwr boddhaol, ond ni all ddangos a yw safleoedd eraill wedi gwella ers eu dynodi. Gan ddefnyddio adnoddau ychwanegol a ddarperir gan y Cynulliad, mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn ymestyn ei raglen fonitro i safleoedd eraill.

**Gwarchod Treftadaeth Ddiwydiannol Cymru**

**C17 David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cynnal â Cadw yn ddiweddar ynghylch yr angen i warchod treftadaeth ddiwydiannol Cymru? (OAQ12263)

**Sue Essex:** Cysylltais â Cadw cyn gwneud datganiad gerbron y Cynulliad ar ddyfodol ffatri Semtex Dunlop, Brynmawr ar 21 Mehefin. Cefais drafodaethau yn ddiweddar hefyd gyda Cadw am y rhaglen o brosiectau a gynhelir yng ngwaith haearn Blaenafon; mae'r gwaith hwn yng ngofal y wladwriaeth ac yn rhan o safle treftadaeth y byd.

**Diffyg Cymorth Ariannol i'r Diwydiant Cludo Nwyddau ar y Ffordd**

**C18 David Davies:** A yw'r Gweinidog wedi trafod gyda'r rhai sydd yn cyfateb iddi yn y gweinyddiaethau datganoledig eraill y diffyg cymorth ariannol i'r diwydiant cludo nwyddau ar y ffordd? (OAQ12221)

**Sue Essex:** Ni chefais unrhyw drafodaethau o'r fath. Mae'r swyddogion wedi cyfarfod â'r gweinyddiaethau datganoledig, yr Adran Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau a Thrysorlys Ei Mawrhydi i drafod y gronfa moderneiddio'r diwydiant cludo nwyddau ar y ffordd. Nid oes arian ychwanegol ar gael eleni. Bydd pob gweinyddiaeth ddatganoledig yn awr yn ystyried sut i fwrw ymlaen. Bwriadwn gysylltu â'r Gymdeithas Cludiaent Ffyrdd, y Gymdeithas Trafnidiaeth Cludo Nwyddau ac Undeb y Gweithwyr Trafnidiaeth a Chyffredinol i ganfod anghenion y diwydiant yng Nghymru.

**Gwarchod Safleoedd Tir Glas yng Nghanol De Cymru**

**C19 Jonathan Morgan:** Pa gamau y mae'r weinyddiaeth yn eu cymryd i warchod safleoedd tir glas yng Nghanol De Cymru? (OAQ12269) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Gwella Lefelau Bioamrywiaeth**

**C20 Rhodri Glyn Thomas:** Sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu sicrhau bod datblygu cynaliadwy yng Nghymru yn gwella lefelau bioamrywiaeth? (OAQ12225)

**Sue Essex:** Mae mynnu bod materion amgylcheddol, gan gynnwys bioamrywiaeth, yn cael eu hintegreiddio i bob agwedd ar waith y Cynulliad, ochr yn ochr â phryderon cymdeithasol ac economaidd, yn gam pwysig ymlaen. Bydd ein hymrwymiad i lunio ffyrdd o arfarnu a dangosyddion datblygu cynaliadwy, gan gynnwys olrhain ecolegol, yn ein helpu i sicrhau gwell canlyniadau o safbwynt bioamrywiaeth.

**Strategaeth Wastraff Cymru**

**C21 Helen Mary Jones:** Pryd y bydd y fersiwn ddrafft o strategaeth wastraff Cymru ar gael i ymgynghori arni? (OAQ12248)

**Sue Essex:** Bwriadaf gyhoeddi'r strategaeth wastraff newydd i ymgynghori arni ar 4 Gorffennaf.

**Dyfarnu Baneri Glas i Draethau Cymru**

**C22 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch dyfarnu baneri glas i draethau Cymru? (OAQ12252)

**Sue Essex:** Eleni, dyfarnwyd baner las i 18 o draethau Cymru gan y Grŵp Prydain Daclus (Cadw Cymru'n Daclus yng Nghymru). Er bod hyn yn siomedig o'i gymharu â'r cyflawniadau uchaf erioed a gafwyd y llynedd, mae gan Gymru gyfran uchel o'r cyfanswm o 55 o draethau baner las yn y DU. Os cafwyd dirywiad amlwg yn ansawdd y dŵr mewn dyfroedd nofio a ddynodwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn archwilio'r rhesymau ac yn adrodd arnynt.

**Cyllideb ar Gyfer Datblygu Ymchwil ar Drafnidiaeth**

**C23 Eleanor Burnham:** Beth yw'r gyllideb ar gyfer datblygu ymchwil ym maes trafnidiaeth yng Nghymru? (OAQ12249)

**Sue Essex:** Mae'r Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth yn dal i ystyried ei gofynion ymchwil, yn enwedig yng nghyswllt yr wybodaeth sy'n ofynnol i gefnogi'r fframwaith trafnidiaeth. O'r herwydd, nid yw darpariaeth y gyllideb ar gyfer gwaith ymchwil trafnidiaeth a ffyrdd wedi'i phennu eto, er y dangosir ffigur tybiedig yn llinellau'r gyllideb ar gyfer 2001-02. Caiff y ffigur hwn ei gynyddu yn ystod y flwyddyn, o ddarpariaeth y gyllideb drafnidiaeth gyffredinol, er mwyn cyd-fynd â gwir anghenion y rhaglen ymchwil, pan gytunir arnynt. Mae'r gyfarwyddiaeth hefyd yn cydweithredu yn rhaglenni ymchwil trafnidiaeth yr Adran Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau; yr Asiantaeth Priffyrdd; a Gweithrediaeth yr Alban.

**Gwella Cysylltiadau Trafnidiaeth yng Nghanol De Cymru**

**C24 David Melding:** Pa gamau y mae'r weinyddiaeth yn eu cymryd i wella cysylltiadau trafnidiaeth yng Nghanol De Cymru? (OAQ 12271) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Trafodaethau gydag Asiantaeth yr Amgylchedd (Prosiect Llosgwr Tywyn Crymlyn)**

**C25 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei thrafodaethau diweddaraf gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ynghylch prosiect llosgwr Tywyn Crymlyn? (OAQ12217)

**Sue Essex:** Rwyf wedi trafod gydag Asiantaeth yr Amgylchedd yr angen i sicrhau y cynhelir ymgynghoriad priodol â'r cymunedau lleol. Cynlluniwyd y cyfleuster gwastraff integredig yn Nhywyn Crymlyn er mwyn ailgylchu a chompostio rhagor, a chynhyrchu ynni o wastraff, gan ostwng y gwastraff a gaiff ei gladdu yn sylweddol. Bydd yn rhaid iddo gael sêl bendith y drefn rheoli ac atal llygredd integredig cyn y gellir ei roi ar waith. Bydd yn rhaid i unrhyw ganiatâd gan yr asiantaeth fodloni gofynion caeth y Gyfarwyddeb Llosgi Gwastraff a sefydlwyd i warchod iechyd pobl a'r amgylchedd.

**Hyrwyddo Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru**

**C26 Janet Davies:** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau bod y Cynulliad yn arwain y ffordd wrth hyrwyddo datblygu cynaliadwy yng Nghymru? (OAQ12262)

**Sue Essex:** Yn unol â'r cynllun datblygu cynaliadwy, rydym yn awyddus i gynnwys hyrwyddo datblygu cynaliadwy ym mhopeth a wnawn, yn enwedig drwy bolisïau a rhaglenni newydd a, thros amser, drwy ddylanwadu ar sefydliadau partneriaethol a llywio gwaith y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad.

Disgwyliaf y bydd tri darn penodol o waith sydd eisoes mewn llaw yn helpu'n sylweddol i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd am faterion datblygu cynaliadwy. Sefydlwyd panel ymgynghorol ar addysg datblygu cynaliadwy yn ddiweddar gan Jane Davidson. Bwriedir lansio'r ymgynghoriad ar strategaeth wastraff i Gymru fis nesaf. Mae ardal ecolegol Cymru yn cael ei chyfrifo, a dylai fod yn barod erbyn mis Hydref, mewn pryd i gael ei bwydo i'n paratoadau ar gyfer uwch-gynhadledd y byd 2002 ar ddatblygu cynaliadwy.

**Gwella Cysylltiadau Rhyngfoddol rhwng y Gogledd a'r De**

**C27 Eleanor Burnham:** Sut y mae'r Gweinidog yn argymell y dylid gwella cysylltiadau rhyngfoddol rhwng y gogledd a'r de? (OAQ12250)

**Sue Essex:** Rydym yn annog ymgeiswyr am y fasnachfraint rheilffordd i gynnig eu hunain gyda chynlluniau buddsoddi cryf, er mwyn defnyddio'r rhwydwaith trafnidiaeth i'r eithaf, a sicrhau cysylltiadau da â dulliau trafnidiaeth eraill.

Mae'r grant trafnidiaeth yn cynorthwyo awdurdodau lleol i wella'r cysylltiadau rhyngfoddol. Er enghraifft, yn strategaeth trafnidiaeth integredig y Drenewydd, mae Cyngor Sir Powys wedi cynnwys cynigion i wella'r cysylltiadau bysiau, amseroedd teithiau a'r cyfleusterau aros yng ngorsaf fysiau y Drenewydd; bydd hyn holl yn cyfrannu at gysylltiadau rhyngfoddol gwell rhwng y gogledd a'r de.

Caiff blaen-raglen cefnffyrdd y Cynulliad ei llunio ar ôl cyhoeddi'r fframwaith trafnidiaeth, a rhoddir ystyriaeth i ganlyniadau astudiaeth Babtie 2000 wrth wneud penderfyniadau ar y gwelliannau i'r cysylltiadau rhwng y gogledd a'r de.

**Datblygu Strategaeth Wastraff ar gyfer Cymru**

**C28 Delyth Evans:** Pa ddatblygiadau a fu o ran datblygu strategaeth wastraff ar gyfer Cymru? (OAQ12198)

**Sue Essex:** Bwriadaf gyhoeddi'r strategaeth wastraff newydd i ymgynghori arni ar 4 Gorffennaf. Bydd yn cynnwys cynigion i sicrhau'r cyfleoedd gorau i leihau gwastraff, ailgylchu a chompostio.

**Datblygu'r Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol yng Nghymru**

**C29 Delyth Evans:** Pa ddatblygiadau a fu o ran datblygu'r fframwaith cynllunio gofodol cenedlaethol yng Nghymru? (OAQ12199)

**Sue Essex:** Cwblhawyd prosiect ymchwil ar ffyrdd posib o ddatblygu'r fframwaith ym mis Mawrth eleni. Yn seiliedig ar ei gasgliadau ac ar safbwyntiau eraill a gefais, rwyf wedi llwyddo i gymryd camau cychwynnol ar y fframwaith fel a ganlyn:

- sefydlwyd uned cynllunio gofodol arbennig o fewn i Is-adran Gynllunio'r Cynulliad;

- sefydlwyd bwrdd rheoli bychan ar gyfer y fframwaith, dan gadeiryddiaeth pennaeth yr Is-adran Gynllunio, a chan gynnwys cynrychiolwyr y sefydliadau partner—Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru, Cyngor y Diwydiant Adeiladu, Cydffederasiwn Diwydiannau Prydain a'r byd academaidd—yn ogystal â swyddogion y Cynulliad sydd â chyfrifoldeb dros gynllunio, trafnidiaeth, datblygu economaidd a datblygu cynaliadwy;

- er mwyn sicrhau cyfraniad ehangach, sefydlwyd rhwydwaith cynllunio gofodol, sy'n cynnwys amrywiaeth mawr o sefydliadau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol, yn ogystal â'r holl awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru a'u grwpiau rhanbarthol. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y rhwydwaith ar 20 Mehefin, fel a welir yn fy ateb i gwestiwn Lynne Neagle, OAQ12174.

Bydd y camau nesaf, ar ôl ymgynghori ag aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth a'r bwrdd rheoli, yn golygu cyflwyno dogfen ymgynghori ar y broses a'r materion y bydd yn rhaid i'r fframwaith roi sylw iddynt. Bwriedir gwneud rhagor o ymchwil i gefnogi datblygiad y fframwaith. Bydd hwn yn seiliedig ar y cyfeiriad strategol a bennir gan y Cynulliad. Bydd yn pwyso a mesur symbylwyr allweddol y newid yng Nghymru a'i rhanbarthau dros yr 20 mlynedd nesaf, a'r cyfleoedd posibl ar gyfer cynllunio gofodol a gyfyd o'r rheini. Tra bod llawer o'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i ddadansoddi'r materion hyn a tharo ar atebion ar gael yn awr, bydd yr ymchwil hefyd yn dynodi, ac yn canfod ffyrdd o lenwi, unrhyw ddiffyg gwybodaeth.

Fy nod yw llunio fframwaith gofodol drafft i ymgynghori'n helaeth arno erbyn Gwanwyn 2002.

## Atal Lleihad Bioamrywiaeth yng Nghymru

**C30 Cynog Dafis:** Pa bolisïau sydd gan y Gweinidog i atal lleihad difrifol bioamrywiaeth yng Nghymru? (OAQ12226)

**Sue Essex:** Fe'ch cyfeiriaf at fy atebion heddiw i OAQ12274 ac OAQ12227.